

Mae'n dda i fusnes

Sut i elwa i'r eithaf ar eich sgôr hylendid bwyd



Gall eich sgôr hylendid bwyd fod yn ganolog i weithgarwch hyrwyddo eich busnes. Mae'n rhaid i fusnesau arddangos y sgôr yng Nghymru, felly beth am ddechrau ei chynnwys yn neunyddiau marchnata eich busnes hefyd?

Dyma ambell air i gall ar sut i fanteisio i'r eithaf ar eich sgôr.

Yn eich bwyty, caffi neu siop tecawê

Bydd yn **rhaid** i fusnesau bwyd yng Nghymru arddangos y sticer a anfonir atynt o dan Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru). Mae'r sticer hwn yn cynnwys logo Llywodraeth Cymru. Mae'n rhaid ei arddangos wrth neu yn agos i fynedfa eich busnes mewn lle amlwg lle gall cwsmeriaid ei weld yn hawdd.

Syniadau hyrwyddo eraill

Bwydlen

Mae bwydlenni yn lle gwyh i hysbysebu eich sgôr hylendid bwyd. Felly, p'un a yw'ch bwydlen ar y bwrdd, yn y ffenest, ar fwrdd y tu allan neu ar-lein, gallwch arddangos eich sgôr. I helpu, mae gennym ni ddelweddau o'ch sgôr y gallwch eu lawrlwytho a'u defnyddio.

Gwefan

Mae eich gwefan hefyd yn lle da i hyrwyddo eich sgôr hylendid. Er mwyn eich helpu i ddechrau arni, mae gennym faner ar gyfer y we y gallwch ei lawrlwytho neu gallwch osod eich sgôr ar eich gwefan drwy ddefnyddio 'widget' yr ASB. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am hyn ym manylion eich busnes ar food.gov.uk/ratings – cliciwch ar 'Cymraeg'.

Taflelli

Beth am gynnwys dyfyniad byr ar eich taflelli hysbysebu nesaf sy'n hyrwyddo eich sgôr hylendid bwyd? Er enghraifft:

“Mae (enw'r busnes) wedi llwyddo i gael sgôr o (sgôr) yn y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.”

Gallwch hefyd ychwanegu dyfyniad mwy personol, yn arbennig os ydych chi wedi cael sgôr o '5' a'ch bod yn falch o hynny.

A chofiwch gynnwys llun o'ch sgôr hylendid a manylion y wefan food.gov.uk/ratings – cliciwch ar 'Cymraeg'.

Hysbyseb Papur Newydd

Beth am gynnwys dyfyniad fel yr un uchod yn ogystal â llun o'ch sgôr y tro nesaf yr ydych chi'n gosod hysbyseb yn eich papur lleol? Mae'n ffordd syml o roi gwybod i gwsmeriaid rheolaidd, a rhai newydd o bosibl, fod gan eich busnes safonau hylendid bwyd da iawn.

E-bost

Os oes gennych chi gronfa ddata* o gyfeiriadau e-bost cwsmeriaid, gallwch gynnwys eich sgôr hylendid bwyd fel rhan o'ch llofnod pan fyddwch chi'n anfon e-bost neu gylchlythyr. Mae'n ffordd hawdd o godi ymwybyddiaeth o'ch sgôr.

I weld y delweddau, logos a baneri gwe a gaiff eu crybwyll yn y daflen hon, ewch i: food.gov.uk/business-toolkit-fhrs – cliciwch ar Cymraeg

“Fy siop i yw'r unig siop 'sgod a sglod yn yr ardal hon sydd â sgôr o bump, ac rydw i'n hynod falch o hynny. Mae'r sgôr hylendid wedi arwain at gynnydd mewn gwerthiant, felly does dim dwywaith ei fod yn dda i fusnes.”

Mathew Williams, perchennog siop 'sgod a sglod

Cyfyngau Cymdeithasu

Ydych chi wedi ystyried defnyddio'r cyfyngau cymdeithasu? Mewn arolwg diweddar,** dywedodd 47% o'r perchnogion bwytaï a gafodd eu holi mai'r cyfyngau cymdeithasu oedd y rhan bwysicaf o'u hymgyrch farchnata ar gyfer 2012. Gyda mwy a mwy o gwsmeriaid yn defnyddio'r cyfyngau hyn, gallwch fanteisio arnynt i'r eithaf a'u defnyddio i hyrwyddo eich sgôr.



Facebook

Gyda dros 900 miliwn o ddefnyddwyr, mae Facebook yn lle gwych i fwytaï, caffis a siopau tecawê hyrwyddo eu busnes. Gallwch greu tudalen a chysylltu â'ch cwsmeriaid mewn sawl ffordd:

- Holi cwestiynau a gofyn am adborth ar brydau newydd ac ati
- Cynigion arbennig a hyd yn oed y gallu i archebu bwyd drwy'r dudalen Facebook

Ewch ati i lanlwytho llun o'r sgôr hylendid yn eich ffenestr a gwahodd eich cwsmeriaid i ddathlu gyda chi. Gallwch hefyd ei ddefnyddio i greu mwy o fusnes drwy gynnwys 'cynnig arbennig', er enghraifft:



*I ddatblygu cronfa ddata o gyfeiriadau e-bost cwsmeriaid gallwch gynnal cystadleuaeth. Er enghraifft, gallwch ofyn i gwsmeriaid roi eu cerdyn busnes mewn powlen a thynnu un enw o'r bowlen bob wythnos i ennill pryd i ddau.
**<http://nrm.com/social-media/7-social-media-tools-restaurants>



Twitter

Gyda mwy na 490 miliwn o gyfrifon Twitter ac o leiaf 170 miliwn o negeseuon yn cael eu trydar bob diwrnod, mae Twitter yn cynnig llawer o ffordd gwych i gysylltu â'ch cwsmeriaid:

- Mae trydar lluniau o fwyd blasus a diddorol yr olwg gyda dyfyniadau yn ffordd dda i gael pobl i ail-drydar
- Gallwch hefyd gynnal cystadleuaeth syml drwy Twitter gan lanlwytho llun o'ch sticer a chynnig pryd am ddim i'r 10 sy'n ei ail-drydar gyntaf.



Instagram

Mae dros 40 miliwn o bobl yn defnyddio'r safle rhannu lluniau hwn ac maent yn rhannu 58 o luniau bob eiliad. Gallwch gysylltu â chwsmeriaid ar lefel fwy gweledol, er enghraifft:

- Lluniau o brydau arbennig y dydd
- Lluniau o'ch staff gyda sticer y sgôr
- Postio lluniau o'ch prydau mwyaf blasus
- Rhannu lluniau o gynigion a digwyddiadau arbennig eich busnes

Beth am ddechrau drwy dynnu sylw at eich pryd mwyaf arbennig ar Instagram gyda dyfyniad sy'n sôn am eich sgôr hylendid?



*I ddatblygu cronfa ddata o gyfeiriadau e-bost cwsmeriaid gallwch gynnal cystadleuaeth. Er enghraifft, gallwch ofyn i gwsmeriaid roi eu cerdyn busnes mewn powlen a thynnu un enw o'r bowlen bob wythnos i ennill pryd i ddau.
**<http://nrm.com/social-media/7-social-media-tools-restaurants>